Cyfarfod gwybodaeth gyda'r tîm cydadolygu, y swyddog cyswllt â'u tîm gwybodaeth.

Bydd y swyddog cyswllt, SAC, yr AGGCC rheolwr gweithredol cydadolygu a'r dadansoddwr gwybodaeth yn bresennol yn y cyfarfod. Bydd y swyddog cyswllt fel arfer hefyd yn gwahodd swyddogion corfforaethol perthnasol eraill.

Bydd y cyfarfod hwn yn cwmpasu:

- briffio cyffredinol ynghylch y broses gydadolygu a'r amserlen fras;
- y broses Gwybodaeth Ragarweiniol;
- y broses arolygu;
- ffurf yr arolwg a'r gwaith gyda ffeiliau achos, a chasglu'r enwau a'r cyfeiriadau ar gyfer hynny;
- y broses o ddadansoddi ffeiliau achos;
- y defnydd o'r siartiau llif.

Mae'r cyfarfod yn gyfle pwysig i'r dadansoddwr gwybodaeth ddysgu rhagor ynghylch yr awdurdod a sut maent yn casglu eu data. Awgrymir agenda safonol ar gyfer y cyfarfod gwybodaeth.

Agenda Enghreifftiol

1. Cyflwyniadau

2. Briffio cyffredinol

3. Y broses Gwybodaeth Ragarweiniol

4. Y broses arolygu

5. Y broses o ddadansoddi ffeiliau achos

6. Y defnydd o siartiau llif

7. Systemau data'r awdurdod

8. Y camau nesaf

Disgwylir y bydd y cyfarfod yn parhau rhwng dwy a thair awr.